## Rheolwr Côr Caerdydd – Swydd Ddisgrifiad

| | |
|---|---|
| **Yn atebol i:** | Pennaeth Rhaglenni Choir with No Name |
| **Oriau:** | 20 awr yr wythnos yn cynnwys gyda'r nos ac ar benwythnos yn ôl yr angen |
| **Gwyliau Blynyddol:** | 25 diwrnod yn ogystal â gwyliau banc y DU, pro rata. |
| **Contract:** | Contract Cyfnod Penodol o Flwyddyn |
| **Cyflog:** | £27,779 pro rata |
| **Pensiwn:** | Cyflogwr yn cyfrannu 6% |
| **Lleoliad:** | Wedi'i leoli yn Grangetown, Caerdydd ac mewn gigs/ymarferion. Caiff gweithio rhywfaint o gartref ei ystyried. |

**Cefndir y rôl**

Mae The Choir with No Name (CWNN) yn rhedeg corau i bobl sydd wedi'u heffeithio gan ddigartrefedd yn Llundain, Birmingham, Brighton, Lerpwl a Coventry. Eu cenhadaeth yw cefnogi pobl i wneud ffrindiau, meithrin eu hyder a'u sgiliau, gwella llesiant a dod o hyd i'w lle mewn cymdeithas. Bob wythnos, maen nhw'n cynnal ymarferion, ac mae'r aelodau, gwirfoddolwyr a staff i gyd yn eistedd gyda'i gilydd i fwyta. Yn 2019, ymunodd The Wallich â'r bartneriaeth gyda CWNN i lansio côr newydd yng Nghaerdydd.

Bydd rôl Rheolwr Côr CWNN Caerdydd yn ymgymryd ag ochr weinyddol a bugeiliol côr Caerdydd. Eich gwaith chi fydd recriwtio aelodau newydd i'r côr, eu cefnogi i integreiddio i'r côr, meithrin hyder a'u cyfeirio at wasanaethau perthnasol yn ôl yr angen. Byddwch yn recriwtio, cydlynu ac ysgogi gwirfoddolwyr sy'n chwarae rhan hanfodol wrth gefnogi ymarferion a gigs y côr. Byddwch yn rheoli digwyddiadau gigs a gweithdai allgymorth rheolaidd a byddwch yn gweithio'n agos gyda chyfarwyddwr côr Caerdydd a staff eraill CWNN tra'n derbyn rheolaeth llinell uniongyrchol gan Bennaeth Rhaglenni Choir With No Name ynghyd â Phennaeth Arloesi a Gwella Gwasanaethau The Wallich.

Mae gan ein holl gorau bwyslais cryf ar gyd-gynhyrchu gyda'n haelodau gan ein bod yn credu mewn dod â chryfderau ac adnoddau pob aelod i ganol popeth a wnawn. Wrth symud ymlaen hoffem ehangu ein harlwy i ardaloedd eraill o Gymru gyda phwyslais ar wasanaethau The Wallich. Byddwch yn rheoli prosiectau peilot byr dymor i fesur faint o ddiddordeb sydd yna mewn ffurfio corau gwych newydd sy'n cael eu harwain gan aelodau yn ogystal ag edrych ar ffyrdd y gallwch adeiladu partneriaethau cryfach gyda sefydliadau o'r un feddylfryd.

**Swydd Ddisgrifiad**

1. **Recriwtio a chydlynu ag aelodau**
   a) Bod yn gyfrifol am recriwtio aelodau'r côr, gan sicrhau bod y cyfle i fynychu côr ar gael i gynifer o ddarpar aelodau â phosib.
   b) Yn ystod oriau gwaith ac mewn ymarferion, bod y pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer aelodau presennol y côr a darpar aelodau.
   c) Lle bo'n briodol, helpu aelodau mewn argyfwng drwy eu cyfeirio at wasanaethau arbenigol a gweithredu fel arweinydd Diogelu ar gyfer y côr.
   ch) Galluogi a chefnogi aelodau'r côr i gymryd rôl weithgar yn y côr e.e. manteisio ar wirfoddoli anffurfiol, rolau cynrychiolydd aelodau a llysgennad.

2. **Rheoli Ymarferion a Gwirfoddolwyr**
   a) Bod y person sy'n gyfrifol am bob agwedd ar rediad llyfn yr ymarferion (ar wahân i'r darnau cerddorol!)
   b) Bod yn rheolwr llinell ar holl wirfoddolwyr Caerdydd, gan gynnwys eu cefnogi yn eu perthynas ag aelodau'r côr.
   c) Trefnu hyfforddiant rheolaidd a sesiynau ymarfer myfyriol i wirfoddolwyr.

ch) Bod yn gyfrifol am iechyd a diogelwch a hylendid bwyd yng ngweithgareddau'r côr.

3. **Gigs a gweithdai**
   a) Trefnu a hyrwyddo gigs rheolaidd i gôr Caerdydd, mewn ymgynghoriad â Chyfarwyddwr y Côr.
   b) Trefnu gweithdai allgymorth rheolaidd (ac weithiau prosiectau cymunedol ar raddfa fwy) o fewn cymunedau digartref, iechyd meddwl a chymunedau perthnasol eraill.
4. **Gweinyddol**
   a) Pennu a chyflwyno cynllun gwaith priodol ar gyfer côr Caerdydd, gan sicrhau ei fod yn dilyn y blaenoriaethau y cytunwyd arnyn nhw gyda CWNN a The Wallich a'n bod yn cyrraedd cynifer o bobl ar draws y ddinas ag y gallwn.
   b) Dilyn polisïau a gweithdrefnau gweithredol yn gyson, a helpu i'w cadw'n berthnasol ac yn gyfoes.
   c) Cyfrannu at fesur effaith cymdeithasol y côr drwy gynnal arolygon aelodau/grwpiau ffocws priodol a chasglu canlyniadau.
   ch) Anfon diweddariadau chwarterol i staff CWNN a The Wallich i'w cynnwys mewn adroddiadau cyfathrebu allanol a mewnol.
   d) Bod yn gyfrifol am gyllideb côr Caerdydd, gan sicrhau bod gwariant yn rhesymol ac yn unol â'r costau a ragwelir.
   dd) Anfon diweddariadau rheolaidd at CWNN a The Wallich i'w cynnwys mewn deunydd cyfathrebu cenedlaethol, a chyfrannu at gyfathrebu eich llwyddiannau i'ch cymuned leol (drwy gyfryngau cymdeithasol).

**Manyleb Person**

**Hanfodol**

- Angerdd am y côr a photensial ei aelodau
- Ymrwymiad i weledigaeth, cenhadaeth a gwerthoedd CWNN a The Wallich
- Dealltwriaeth gref o gyd-gynhyrchu a gweithio sy'n seiliedig ar gryfderau
- Profiad o weithio'n bositif gyda phobl dan anfantais
- Gwybodaeth am Weithdrefnau Diogelu Cymru yn unol â gofynion deddfwriaethol a disgwyliadau Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
- Profiad blaenorol o reoli gwirfoddolwyr
- Profiad blaenorol o weithio'n effeithiol i gyllideb a strategaeth glir.
- Y gallu i ymddwyn yn bwyllog a phendant mewn argyfyngau, ac i weithio'n bositif gydag ymddygiad heriol
- Hunan-gymhelliant uchel gyda mentergarwch i wneud i bethau ddigwydd.
- Trefnus
- Cysylltiadau da a pherthnasoedd defnyddiol o fewn y sector gwirfoddol, a'r gallu i adeiladu rhai newydd
- Y gallu i gadw cofnodion ariannol cywir
- Yn llythrennog mewn TG (Microsoft Office gan gynnwys Word ac Excel)
- Tosturi a pharch at bob aelod o gymdeithas, gan gynnwys ymrwymiad i gyfle cyfartal

**Dymunol**

- Gwybodaeth am y sector digartrefedd
- Gwybodaeth am Amgylcheddau sy'n Ystyriol o Gyflwr Seicolegol a modelau cymorth Gofal sy'n Seiliedig ar Drawma
- Sgiliau cyfathrebu ysgrifenedig gwych
- Profiad o reoli digwyddiadau
- Synnwyr digrifwch a chariad at gerddoriaeth

- Mae'r gallu i gyfathrebu yn Gymraeg yn ddymunol

**SUT I WNEUD CAIS**

Er mwyn recriwtio mewn ffordd ddiduedd, bydd pob cais yn ddienw cyn iddyn nhw gyrraedd y panel dethol. Nid ydym, ar hyn o bryd, yn gofyn am wybodaeth ynglŷn â'ch profiad gwaith neu addysg, dim ond atebion i gwestiynau a fydd yn dangos y sgiliau sydd eu hangen i gyflawni'r rôl.

Dilynwch y camau canlynol:

1. Copïwch a gludwch y cwestiynau ar dudalen olaf y ddogfen hon i ddogfen Word ar wahân.
2. Atebwch y cwestiynau, gan geisio peidio â defnyddio mwy na 300 gair i bob cwestiwn.
3. Peidiwch â rhoi eich enw nac unrhyw wybodaeth adnabod ar y ddogfen.
4. E-bostiwch y ddogfen fel atodiad at info@choirwithnoname.org erbyn **9am ar 30ain Ionawr.** Dylech gynnwys eich rhif ffôn yn yr e-bost.
5. Os fyddwch chi ar y rhestr fer, cewch eich gwahodd am **gyfweliad ar y 7fed o Chwefror.**

Os oes gennych chi anghenion mynediad sy'n gwneud unrhyw agwedd ar y broses ymgeisio yn anodd, cysylltwch â ni yn info@choirwithnoname.org a byddwn yn gwneud addasiadau rhesymol. Gallwch hefyd ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost hwn os oes gennych unrhyw gwestiynau am y broses.

Diolch yn fawr iawn am eich diddordeb mewn gweithio gyda ni yn The Choir with No Name, a phob lwch gyda'ch cais!

**CWESTIYNAU'R CAIS**

***Ceisiwch beidio â defnyddio mwy na 300 gair fesul cwestiwn – diolch. Peidiwch â theimlo bod angen i chi ddefnyddio'r uchafswm geiriau'n llawn os gallwch chi ateb yn fwy cryno.***

1. Pam rydych chi eisiau gweithio gyda Choir with No Name Caerdydd, a pham nawr?

2. Allwch chi ddweud wrthym pryd rydych wedi cefnogi, neu eirioli ar ran rhywun. Beth oedd y canlyniad ac a fyddech chi wedi gwneud unrhyw beth gwahanol y tro nesaf?

3. Mae hon yn rôl ran-amser amrywiol. Dywedwch wrthym sut y byddech chi'n blaenoriaethu gwaith ac yn sicrhau bod y pethau cywir yn cael eu gwneud.

4. ***Sefyllfa:*** Rydych chi'n derbyn galwad wrth aelod o'r côr sydd mewn trallod. Maen nhw'n dweud bod aelod arall wedi anfon negeseuon testun bygythiol atyn nhw. Dydyn nhw ddim yn gwybod pam fod hyn wedi digwydd, ond maen nhw eisiau iddo ddod i ben. Pa gamau fyddech chi'n eu cymryd i sicrhau bod pawb yn ddiogel ac yn cael eu cefnogi?

5. ***Sefyllfa:*** Mae aelod o'r côr yn dweud wrthoch chi bod aelod arall yn cadw benthyg arian wrthyn nhw yn ystod ymarferion côr. Dydyn nhw ddim am ddweud wrthoch chi pwy ydyn nhw ond maen nhw wedi dweud eu bod yn meddwl gadael y côr er mwyn osgoi gweld y person. Sut fyddech chi'n ymdrin â hyn?